



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Drwy e-bost at:
SeneddDCC@senedd.cymru

17/10/2022

Annwyl Gadeirydd

Craffu ar Fil Cydgrynhai cyntaf Cymru – Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Rwy'n ymwybodol y bu'r Pwyllgor yn craffu ar Fil Cydgrynhai cyntaf Senedd Cymru dros yr haf. Er i ni fethu'r cyfle hwnnw i rannu sylwadau gyda chi, deallaf fod y Pwyllgor yn parhau i roi ystyriaeth gychwynnol i'r Bil. Hyderaf felly bydd cynnwys y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth i chi barhau â'r trafodaethau.

Mae gennym ddiddordeb byw yn y Bil hwn ar gyfrif ein cyfrifoldeb unigryw i safoni enwau lleoedd Cymru a'n diddordeb polisi mewn hyrwyddo a gwarchod enwau Cymraeg. Fodd bynnag, mae ein diddordeb yn y Bil hwn yn disgyn y tu allan i gwmpas gorchwyl presennol y Pwyllgor mewn gwirionedd. Nid ydym yn ystyried bod gennym sylwadau penodol i'w cynnig mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor sy'n deillio o Reol Sefydlog 26C.

Deallwn nad oes cyfle i ddiwygio na chryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol yn rhan o'r ymarferiad cydgrynhai. Mae ein diddordeb ni yn y Bil hwn yn ymwneud yn bennaf â'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol statudol a byddwn yn ceisio cyfleoedd eraill i drafod sut y gellid cryfhau ymhellach statws a chynnwys yr adnodd hwn. Roeddem yn falch o gyfrannu yn ddiweddar at Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd yn darparu argymhellion i'r Comisiwn Brenhinol at y dyfodol, er enghraifft. Ac mae'n drafodaeth amserol wrth i Lywodraeth weithio tuag at y nod a amlinellir yn y Cytundeb Cydweithio i 'sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo'.

Mae gennym ddiddordeb hefyd, wrth reswm, ym mhotensial cyfraith Cymru i gryfhau ymhellach statws y Gymraeg. Mae'r ymarferiad cydgrynhai hwn yn digwydd mewn cyd-

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



destun deddfwriaethol lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil fel y'i cyflwynwyd. Yn wir, mae'r cyfeiriadau at y Gymraeg yn brin yn neddfau'r Senedd yn gyffredinol, fel yr amlygwyd yn [Adroddiad 5-mllynedd y Comisiynydd](#) (gweler t.29), a gallai'r prosiect cydgrynhoi cenedlaethol hwn fod yn gyfle i unioni'r cam hwnnw.

Carwn nodi, wrth gloi, ein croeso cyffredinol i'r ymarferiad presennol a'r nod cyffredinol o sicrhau bod cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir, a hawdd ei defnyddio. A hynny yn nwy iaith swyddogol Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau, wrth gwrs, fod deddfwriaeth hanesyddol a luniwyd yn San Steffan ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Byddai'n dda deall rhagor am sut y mae'r drafftwy'r dwyieithog, cyfieithwyr deddfwriaethol a therminolegwyr wedi cydweithio er mwyn gwella hygyrchedd y gyfraith a safoni a chysoni terminoleg yn y ddwy iaith. Mae'n debyg fod hyn, hefyd, y tu hwnt i gwmpas y craffu presennol ond byddai'n fuddiol ystyried a oes yna wersi i'w dysgu ac arferion llwyddiannus i'w trosglwyddo wrth i'r rhaglen cydgrynhoi fynd rhagddi.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi fel pwyllgor wrth i chi ddechrau ar y gwaith o graffu ar fil cydgrynhoi cyntaf Senedd Cymru.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price

Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg